

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 18

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Gwyliau gwahanol	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i chwilio am wybodaeth am Mongolia a gwledydd Canolbarth Asia (lle mae pobl yn byw mewn iwrts) <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo cylchedd ac arwynebedd cylch <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth ar wyliau mewn iwert gwneud poster i hysbysebu gwyliau gwahanol / gwyliau mewn iwert
Hobïau diddorol	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o Gymru ac i chwilio am wybodaeth am leoedd diddorol yng Nghymru <p>Dylunio a thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i gynllunio ac i wneud papurau siocled newydd <p>Celf a dylunio</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddylunio logo / papur siocled <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddewis ffotograffau ac i osod tegau yn y llun, fel rhan o'r gweithgaredd tegau'n teithio drwy Gymru
Edrych ymlaen	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am a lleoli lleoedd penodol ar fap <p>Hanes</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am adeiladau hanesyddol sy'n boblogaidd gyda thwristiaid <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth – rhoddir tasgau sy'n gysylltiedig â gwefannau penodol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau - gwneud taflen
Dewch gyda fi ...	<p>Hanes</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth mewn perthynas â'r Tuduriaid cyfle i chwilio am wybodaeth am gyfnodau hanesyddol eraill wrth gynllunio Dydd Hanesyddol <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth mewn perthynas â'r Tuduriaid a chyfnodau hanesyddol eraill cynllunio deunyddiau hyrwyddo mewn perthynas â'r Dydd Hanesyddol sy'n cael ei gynllunio

Mynd ar wyliau	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ystyried gwahanol wledydd yn y byd a dangos eu lleoliad ar fap o'r byd <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod prisiau ac i wneud penderfyniadau ar sail faint o gyllid sydd ar gael i'w wario <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth am leoedd diddorol yng Nghymru chwilio am luniau a mapiau i'w cynnwys mewn darn ysgrifenedig
Chwaraeon i bawb	<p>Addysg gorfforol</p> <p>“ymchwilio a chynllunio ar gyfer cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol, gartref ac yn y gymuned leol, a chael hyd i ffyrdd o gynnwys ymarfer yn eu ffyrdd o fyw”</p> <p>Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles:</p> <p>cynllunio “gweithgareddau sy'n ffurfiau o ymarfer heb fod yn gystadleuol ac a ddewisir am yr hyn a gyfrannant at iechyd cyffredinol, amcanion ffitrwydd a theimladau o les.”</p>
Byw yng Ngwlad Groeg	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i chwilio am wybodaeth am ynysoedd Gwlad Groeg <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Dysgu Cymraeg yn Japan	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i chwilio am wybodaeth am Japan <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> trafod pris nwyddau sydd i'w gwerthu i Japan a chyfrifo'r pris wrth gynnig gostyngiad arbennig trosi rhwng punnoedd a yen <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth am leoedd diddorol yng Nghymru chwilio am luniau a mapiau i'w cynnwys mewn darn ysgrifenedig gwneud fideo / podlediad i ddysgu Cymraeg
Cofiwch eich mwgwd nwy	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i chwilio am wybodaeth am losgfynyddoedd cyfle i drafod gwahanol fathau o dwristiaeth / pam mae twristiaeth yn bwysig mewn rhai gwledydd cyfle i ystyried y rhesymau dros fynd i wledydd / lleoedd arbennig ar wyliau <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> dehongli graffiau cyfle i wneud holiaduron mewn perthynas â'r rhesymau dros fynd i leoedd penodol <p>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p>

	<ul style="list-style-type: none">• gwneud taflen i hysbysebu Cymru fel lle da ar gyfer gwyliau Hanes <ul style="list-style-type: none">• cyfle i chwilio am wybodaeth am adeiladau hanesyddol, e.e. adeiladau yng ngofal CADW
--	---

Y Cwricwlwm Cymreig

Yn y darn **Hobiau diddorol**, mae cyfleoedd i ddewis a thrafod lleoedd diddorol yng Nghymru ac yn **Edrych ymlaen**, mae cyfleoedd i drafod beth sy'n digwydd yng Nghymru dros yr haf, atyniadau twristaidd ac yn benodol Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Gofynnir i'r disgyblion gynllunio taith ar gyfer 4 person yng Nghymru ac i ysgrifennu am y daith yn y darn **Mynd ar wyliau**. Mae cyfle felly i chwilio am wybodaeth am leoedd diddorol yng Nghymru. Yn y darn, **Cofiwch eich mwgwd nwy**, mae cyfle i drafod pam mae Cymru'n denu cymaint o dwristiaid, i edrych ar ba fath o dwristiaeth sy'n boblogaidd ac i ymchwilio i leoedd o ddiddordeb arbennig.

